



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro a'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr **Llythyr Newyddion**

Gair gan y Cadeirydd

Rwyf newydd ddychwelyd o archwiliad meddygol estynedig yn y ganolfan feddygol leol. Rwy'n gyrru bws mini cymunedol y pentref yn rheolaidd ac os wyf am barhau i wneud hynny mae angen i mi sicrhau bod y categorïau perthnasol yn aros ar fy nhrwydded yrru ar ôl ei hadnewyddu. Rôl fy meddyg yw cadarnhau fy niogelwch i allu parhau i yrru cerbyd mor fawr.

Ysgogodd cael archwiliad gorfodol ar fy nghyflwr iechyd i mi feddwl pa mor aml y mae Cyrff Llywodraethu yn cynnal gwiriadau iechyd ar y darnau mwy diflas o'u gwaith. Rwyf newydd dderbyn tomen o bolisiâu i'w darllen, i gynnig sylwadau arnynt a chytuno iddynt. Yn ffodus, mae gennym Was Sifil wedi ymddeol sydd wedi gwirfoddoli i gadw llygad arnynt ac mae amserlen o adolygiadau rheolaidd, sy'n golygu bod y twmpath yma yn cyrraedd yn rheolaidd, ond nid mewn meintiau rhy fawr fel rhai na ellir eu cadw o dan reolaeth

Mae'r swp diweddaraf yn cynnwys eitemau safonol fel y Polisi Cyflog a'r Polisi Derbyn, a'r polisi ARR (Asesu, Cofnodi ac Adrodd mewn Saesneg clir.) Ond hefyd, yn drist dweud, y Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Ymwelwyr. Mae rhywun yn gobeithio na fydd hyn yn cael ei roi ar waith yn rhy aml.

A oes gan eich Corff Llywodraethu broses debyg ar gyfer diweddarau polisiâu? Mae'n hawdd eu hanghofio yng nghanol bwrllwm

busnes amrywiol yn gofyn am sylw, a phrin y caiff llawer ohonynt fyth eu defnyddio mewn dicter, ond maent yn hanfodol i sicrhau, pan fydd eu hangen ar frys, eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Yn yr un modd, gwnewch yn siŵr bod aelodaeth y gwahanol bwyllgorau yn gyfredol, a bod gennych brawf ar ffurf cofnodion o benderfyniadau a wneir. Flynyddoedd lawer yn ôl, collodd Corff Llywodraethu yr oeddwn i'n rhan ohono dribiwnlys cyflogaeth ar bwynt technegol. Roedd un o aelodau pwyllgor hanfodol wedi gadael yng nghanol y flwyddyn, ac nid oedd cofnod gennym a nodai ei olynydd, o aoedd yn annilysu ein gweithdrefn. Camgymeriad drud, sydd wedi fy ngwneud yn hynod ofalus fyth ers hynny am y manylion diflas.

Ac rwy'n falch o ddweud bod y meddyg wedi rhoi bil iechyd llawn i mi, a fy mod yn cael parhau i yrru'r bws mini fel y gallwch godi llaw arnaf os gwelwch fi ar y stryd mewn Mercedes porffor mawr a gallwch fod yn dawel eich meddwl bod gweithiwr proffesiynol cymwys wedi dweud fy mod yn ddiogel i'w yrru.

Dr Martin Price
Cadeirydd Cymdeithas
Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-
gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol
Uwchradd Gatholig Sant Richard
Gwyn

Rhifyn 51 Tymor Gwanwyn 2022

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Pob disgybl, pob uchelgais: Gwaith yn y dyfodol

Mae Llywodraethwyr Ysgolion yn falch o lansio tymor dau o'r 'ymgyrch pob disgybl, pob uchelgais: Gwaith yn y dyfodol'. Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn y gall llywodraethwyr ei wneud i helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith. Byddwn yn archwilio'r cysyniad o gyflogadwyedd, a'r ffordd orau o helpu disgyblion beth bynnag fo'u cefndir, i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu paratoi ar gyfer marchnad swyddi'r dyfodol. Rydym yn gobeithio ysbrydoli mwy o bobl i wneud cais i fod yn llywodraethwr a chefnogi'r rhai sydd eisoes yn llywodraethwyr ag adnoddau hawdd eu defnyddio.

Beth yw 'Pob disgybl, pob uchelgais: Gwaith yn y dyfodol'?

Mae 'Pob disgybl, pob uchelgais: Gwaith yn y dyfodol' yn ymwneud â chael pobl sydd am roi cyfle i bob disgybl gyrraedd eu huchelgeisiau ar fyrddau ysgolion. Ar ôl yr hyn a fu'n gyfnod anodd i ddisgyblion, nawr yn fwy nag erioed, mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae o ran helpu ein pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn. Bob tymor, rydym yn canolbwyntio ar faes gwahanol sy'n hanfodol i lwyddiant pobl ifanc. Gyda ffocws y tymor hwn yn ymwneud â gyrfaedd a chyflogadwyedd, rydym wedi cynllunio pecyn o ddigwyddiadau, adnoddau ac eDdysgu i gefnogi llywodraethwyr.

Gwnaed holl adnoddau ymgyrch y tymor hwn yn bosibl trwy gefnogaeth Allen & Overy.

Mae ein fideo byr, yn gyflwyniad cyflym i'r ymgyrch a gellir ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac o fewn eich rhwydweithiau.

Resources for schools

Mae tudalen adnoddau ein hysgol yn rhestru amrywiaeth o gyfleoedd a dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith i bobl ifanc a ddarperir gan rai o'n partneriaid cydweithredol, gan gynnwys gwybodaeth am brentisiaethau gyda'n noddwr tymor dau, Allen & Overy. Mae'r adnoddau am ddim a gobeithiwn y byddant yn helpu i wella eich cynnig Gyrfaedd ac Arweiniad yn yr ysgol i bob myfyrwr.

Byddwn yn diweddarau ein gwefan gydag adnoddau pellach ar gyfer ysgolion drwy gydol y tymor a byddwn hefyd yn postio erthyglau cysylltiedig ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Adnoddau i lywodraethwyr

Yn ogystal ag adnoddau ar gyfer ysgolion, byddwn yn rhannu deunyddiau drwy gydol y tymor ar gyfer llywodraethwyr. Mae'r rhain yn cynnwys erthyglau, cwestiynau i'w gofyn mewn cyfarfodydd, gweminarau sy'n cynnwys arbenigwyr mewn addysg gyrfaedd ac rydym wedi cynhyrchu modiwlau eDdysgu i lywodraethwyr ehangu eu gwybodaeth.

Sut gall fy ysgol gymryd rhan?

1. Mae rhannu'r cylchlythyr hwn gyda llywodraethwyr eich ysgol yn ffordd wych y gallwch helpu i rannu'r neges.
2. Rhannwch y cylchlythyr hwn gyda'ch arweinwyr Addysg, Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaedd, Pupil Premium (Lloegr yn unig) ac Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd a allai fod â diddordeb yn ein hadran adnoddau.
3. Mae rhannu ein fideo tymor swyddogol dau yn ffordd hawdd o arddangos yr ymgyrch i'ch llywodraethwyr a'ch cymuned ysgol a allai fod â diddordeb mewn llywodraethu.
4. Edrychwch ar ein hadran adnoddau am ddim i ysgolion ddarganfod ystod o ddeunyddiau perthnasol i wella eich cynnig Addysg, Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaedd.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau tymor newydd yr ymgyrch Pob disgybl, pob uchelgais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni a byddem yn hapus i helpu

**Diolch am eich cefnogaeth,
Llywodraethwyr Ysgolion**

Deddf Plant Cymru - Fersiwn derfynol Taflen Wybodaeth – Addysg

Isod mae dolen i daflen ffeithiau ar gyfer y gweithlu addysg ar ddod â chosb gorfforol i ben yng Nghymru. A fydddech cystal â dosbarthu i'ch staff a'ch rhwydweithiau.

Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru: taflen wybodaeth ar gyfer y gweithlu addysg | LLYW.CYMRU

"GOFYNNWCH I MI"

Ydych chi am helpu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod?

Beth am fynychu hyfforddiant Gofynnwch i Mi ar-lein am ddim?

Mae Gofynnwch i Mi yn gynllun sy'n cael ei redeg gan Gymorth i Fenywod Cymru ar y cyd ag Atal Y Fro a Chymorth i Fenywod Caerdydd, i bobl sydd am godi ymwybyddiaeth am drais yn erbyn menywod, rhannu gwybodaeth am gam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu cymunedau yn ogystal â gwybod sut i roi'r ymateb cywir i oroeswyr. I ymuno, mae angen i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn, byw mewn ardal a ariennir a chwblhau ein cwrs "Croeso i Chi Ofyn i mi" am ddim yn llwyddiannus. Ar ôl ymuno â Gofynnwch i Mi, byddwn yn eich helpu yn eich actifiaeth drwy roi adnoddau i chi y gallwch eu rhannu ag eraill, gan ddweud wrthyh am ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd y gallwch gymryd rhan yn eu cylch yn ogystal â'ch helpu i gysylltu ag ymgyrchwyr cymunedol eraill yn eich ardal. I ddysgu mwy ewch i <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/change-that-lasts/ask-me-project/> neu anfon e-bost atom yn <mailto:askmeWales@welshwomensaid.org.uk>

Deborah Lewis

Swyddog Datblygu Addysg Oedolion / Swyddog Datblygu Ardal
Strategaeth, Dysgu yn y Gymuned ac Adnoddau/ Strategy, Community Learning
and Resources
Cyngor Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Council

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2020-22

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive
3	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc
7	Mrs	S	Jenkins-Welch	Ysgol Gynradd C/W St Andrews Cynhwysfawr St Cyres
8	Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gynradd St Athan
9	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
10	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
12	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
13	Clr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
14	Vacancy			
15	Vacancy			
PGR = Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr				
Parent Governor Representative Prim - Lucy Barrowclough - Llandough Primary School				
Parent Governor Representative Sec - Cathy Williams - Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg				

Cymorth Parhaus Llais y Disgybl

Mae prosiect Cenhadon Hawliau'r Fro sy'n cael ei hwyluso gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro wedi parhau i gefnogi gwaith llais y disgybl mewn ysgolion y tymor hwn.

Diffinnir llais y disgybl fel disgyblion y caiff eu llais ei chlywed pan wneir penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg drwy gyfleoedd cyfranogi megis cyngor ysgol.

Ddechrau mis Hydref, gwnaethom hwyluso hyfforddiant athrawon cyswllt cyngor ysgol yn ddigidol drwy Microsoft Teams. Roedd 13 o athrawon o ysgolion cynradd ac uwchradd yn bresennol, ac roedd llawer ohonynt yn newydd i'r rôl.

- Nod yr hyfforddiant oedd darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfranogiad disgyblion effeithiol yn gysylltiedig â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.
- Ymdrin â deddfwriaeth berthnasol, sut i roi llais y disgybl ar waith mewn ysgolion ac archwilio'r dyletswyddau ar ysgolion o ran galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at eu hawliau.
- Trafod argymhellion Archwliad y Cyngor Ysgol ac Adroddiad Gyda'n Gilydd gan Gomisiynydd Plant Cymru

Bydd y Prosiect Cenhadon Hawliau unwaith eto yn hwyluso Hyfforddiant Llais y Disgybl ar 22 Mawrth 2022. Byddem yn annog unrhyw Lywodraethwr Ysgol sy'n cysylltu â gwaith llais y disgybl i fynychu'r hyfforddiant i gefnogi eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ymhellach.

Byddem yn annog llywodraethwyr ysgol i gefnogi gwaith llais disgyblion sy'n cael ei wneud mewn ysgolion, ac i ddarllen yr "Adroddiad Gyda'n Gilydd" sydd i'w weld ar wefan Comisiynydd Plant Cymru - <https://www.complantcymru.org.uk/gydan-gilydd-creu-cyngor-ysgol-uwchradd-gryf-syn-cynrychioli-pawb/>

Gyda'n gilydd: creu cyngor ysgol uwchradd cryf sy'n cynrychioli pawb.

Gorffennaf 2021

Rhwydwaith Cyngorau Ysgol

Wedi'i lansio yng Ngwanwyn 2020, mae rhwydwaith cyngorau ysgol yn fenter sy'n dod â disgyblion o'n holl ysgolion uwchradd at ei gilydd i rannu arfer gorau, hyrwyddo'r gwaith y maent yn ei wneud a chael cyfle i glywed mwy am faterion addysg ym Mro Morgannwg. Gyda chefnogaeth y Cyngorydd Lis Burnett, mynychodd disgyblion o 6 ysgol uwchradd gyfarfod digidol ym mis Gorffennaf 2021.


Cynhaliwyd trydydd cyfarfod ar 5 Tachwedd gyda 5 ysgol uwchradd yn bresennol. Rydym wedi croesawu siaradwyr gwadd yng nghyfarfodydd y rhwydwaith, mae disgyblion wedi cael cyfle i ddysgu mwy am Brosiect Sero, clywed am Wasanaethau Cwnsela Mewn

Ysgolion, sy'n cael ei arwain gan Barnardo's yn ogystal â chlywed am y broses o gofrestru i Bleidleisio Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith cyngorau ysgol unwaith y tymor i roi cyfle i ddisgyblion o'n holl ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd fynychu'r cyfarfodydd. Anogir llywodraethwyr Ysgolion i siarad ag uwch arweinwyr ysgolion i gael adborth disgyblion ar y cyfarfodydd a fynychwyd. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth 2022 lle edrychwn ymlaen at glywed newyddion llais y disgybl.

Mae'r disgyblion wedi rhoi adborth ar y cyfarfodydd y maent wedi'u mynychu:

Sant Cyres - "Roedd cyfarfod Rhwydwaith Llais y Disgybl yn ffordd wych o gydweithio a datblygu dealltwriaeth o'r hyn y mae ein cyfoedion mewn ysgolion eraill yn ei wneud. Roedd y cysyniadau a drafodwyd yn ddiddorol ac yn arwyddocaol megis materion yn ymwneud â'r rhestr gwahodd pawb' a'r amgylchedd. Roedd hefyd yn anhygoel clywed am faterion diweddar datblygiadau'r Fro gan y Cyngorydd Burnett ac edrychaf ymlaen at glywed mwy."

Ysgol y Bont-faen - "Mynychom gyfarfod cyngorau ysgol ar y cyd Bro Morgannwg ddydd Gwener 9 Gorffennaf. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle da i glywed gan gynghorau ysgol ledled y Fro ac i allu rhannu syniadau. Roedd y ffordd hon o weithio yn ein galluogi i deimlo'n rhan o'r gymuned a gwybod ein bod yn aros ar y trywydd iawn drwy gwblhau prosiectau rhagweithiol drwy gydol y flwyddyn."



Cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021



Cyfarfod ym mis Tachwedd 2021


Cymorth Ysgol CCUHP

Mae'r Cynlluniau Llysgenhadon Gwych a Llysgenhadon Uwchradd yn fentrau gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Nod y cynlluniau hyn yw hyrwyddo hawliau plant a chodi ymwybyddiaeth yn benodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y wlad.


Caiff cofrestru ar gyfer y cynlluniau hyn ei hyrwyddo'n weithredol gan y prosiect Cenhadon Hawliau a'r cymorth a gynigir i'r ysgolion ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn academiaidd. Mae cofrestru ar gyfer y cynlluniau am ddim ac anogir llywodraethwyr ysgol i ddarganfod a yw eu hysgolion wedi cofrestru. <https://www.complantcymru.org.uk/ein-cynlluniau/>

Y tymor hwn, cyflwynodd y prosiect Llysgenhadon Hawliau ddigwyddiad Llysgenhadon Gwych digidol ar 21 Hydref i 17 o ysgolion cynradd. Bu'r digwyddiad yn gyfle i 34 o ddisgyblion ddysgu mwy am eu rôl fel disgyblion Llysgenhadon Gwych yn ogystal â deall pwysigrwydd hawliau plant a phobl ifanc.

Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant Llysgenhadon Uwchradd i ddisgyblion yn ysgol Gyfun y Bont-faen i gefnogi'r gwaith y mae disgyblion yn ei wneud yn yr ysgol. Cyflawnwyd hyn hefyd drwy Microsoft Teams. Mae'n wych gallu addasu ein model cyflawni sy'n golygu y gallwn barhau i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mwy am eu hawliau drwy'r cyfnod heriol hwn. Byddai'n wych cael mwy o ysgolion wedi ymrwmo i'r ddau gynllun a gall Llywodraethwyr Ysgol hyrwyddo'r gwaith a wnaed yng Nghyngor Bro Morgannwg yn eu cyfarfodydd nesaf..



Digwyddiad Llysgenhadon Gwych Hydref 2021



Llysgenhadon Uwchradd Ysgol y Bont-faen Tachwedd 2021

Prosiect Pleidlais


Unwaith eto, mae Comisiynydd Plant Cymru yn hwyluso Prosiect Pleidlais, Etholiad Cyfochrog i bobl ifanc 11–15 oed i gyd-fynd ag Etholiadau Cyngorau Lleol a gynhelir ym mis Mai 2022. Mae pob ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y cynllun.

Crëwyd cynlluniau gwersi gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i roi'r wybodaeth i ddisgyblion pam mae pleidleisio'n bwysig ac i gael dealltwriaeth o bwerau awdurdodau lleol.



Mae'r Prosiect Cenhadon Hawliau wrth law i gefnogi Gwersi ABCh wrth gyflwyno Gwersi Prosiect Pleidlais ac yn ddiweddar fe'u gwahoddwyd i gyflwyno gwersi yn Ysgol Whitmore ac Ysgol Sant Cyres. Derbyniwyd ymateb disgyblion i'r gwersi yn gadarnhaol. Byddwn hefyd yn cyflwyno gwersi ABCh yn Ysgol Sant Richard Gwyn yn Nhymor y Gwanwyn.

Anogir Llywodraethwyr Ysgol i ddarganfod a yw eu hysgolion uwchradd wedi cofrestru ar gyfer Prosiect Pleidleisio, mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan - <https://prosiectpleidlais.cymru/>



Gweithredu ar Fwlio – Gwybodaeth a Hyfforddiant Am Ddim i Lywodraethwyr yng Nghymru

Mae bwlio yn bryder difrifol i blant yng Nghymru. Dyna pam rydym wedi ymuno â'r elusen gwrth-fwlio Kidscape yr Wythnos Iechyd Meddwl Plant hon, i dynnu sylw at wybodaeth a chynngor ymarferol ar yr hyn y gall llywodraethwyr yng Nghymru ei wneud i gymryd camau yn erbyn bwlio.

Ym mis Medi 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau statudol i gynorthwyo llywodraethwyr ysgol, staff a gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n gweithio mewn amgylchedd ysgol i ddatblygu a gweithredu polisiau a strategaethau gwrth-fwlio.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Kidscape i ddarparu cymorth i arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr i ymgorffori'r canllawiau a gwella eu polisi a'u harferion gwrth-fwlio.

Darllenwch Flog Kidscape ar Wefan Governors for Schools

Yn y blog gwadd hwn, Taking action against bullying: advice for governors in Wales, mae Kidscape yn amlinellu'r camau allweddol y gall holl lywodraethwyr Cymru eu cymryd.

Ymunwch â Gweminar Cefnogi Ysgolion Hawliau, Parch, Cydraddoldeb

Mae'r weminar fisol rhad ac am ddim hon, sy'n rhedeg tan fis Gorffennaf 2022, yn agored i holl arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion Cymru. Gan gynnwys gwybodaeth am y canllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb, yn ogystal â hyfforddiant gwrth-fwlio pwrpasol i lywodraethwyr yng Nghymru.

Darganfyddwch fwy a chofrestrwch

Gobeithiwn y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol i chi, neu'r rhai yn eich rhwydwaith. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Loren.Nadin@governorsforschools.org.uk. Gallwch hefyd ddod o hyd i adnoddau pellach i lywodraethwyr ar gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion ar wefan Governors for Schools.

Y Mynegai ar gyfer teuluoedd â phlant a phobl ifanc 0-18 oed ag anabledd neu angen ychwanegol sy'n byw ym Mro Morgannwg



Mae'r Mynegai'n rhan o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Bro Morgannwg ac mae'n cael ei ariannu gan grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Y Mynegai yw cofrestr wirfoddol Bro Morgannwg o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol. Yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau.

Cliciwch y ddolen i weld ein hanimeiddiad sy'n esbonio'r Mynegai a'i fanteision mewn ffordd weledol a hygyrch:

<https://www.youtube.com/watch?v=EX5nSx082PU&t=7s>

Rydym yn annog teuluoedd i ymuno â'r Mynegai i gael darlun gwell o angen ym Mro Morgannwg ac i'r rhai sydd wedi cofrestru rydym yn anfon cylchlythyr chwarterol sy'n llawn gwybodaeth am weithgareddau, gofal plant, grwpiau

cymorth, addysg, digwyddiadau, lles a gwasanaethau yn ogystal â'n e-fwletinâu rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd. I weld enghraifft o'r math o wybodaeth a anfonwn at deuluoedd, gweler ein cylchlythyr diweddaraf: [Cylchlythyr y Mynegai - Rhifyn y gaeaf](#)

Rydym yn gofyn am adborth gan unrhyw un sydd wedi cysylltu â'r Mynegai gydag ymholiad neu gais i gofrestru i'n cofrestr wirfoddol bob chwarter. Dyma enghraifft o adborth diweddar gan riant: "[Hygyrch a chyfeillgar iawn, mae'r tîm yn glod i Gyngor Bro Morgannwg](#)"

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion ledled y Fro i hyrwyddo'r Mynegai i deuluoedd a fyddai'n elwa o'n gwybodaeth. Wrth weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn raddol, rydym wedi darparu copïau electronig a phapur wedi'u diweddarau o'n hadnoddau i ysgolion ledled y Fro i'w cefnogi wrth gysylltu â rhieni/gofalwyr am hyn. Fe wnaethon ni ffilmio sesiwn holi ac ateb yn ddiweddar gyda gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n gweithio ar y broses weithredu hon. Cafodd y ffilm ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2022 ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'i hanfon yn uniongyrchol at ein 880 o deuluoedd sydd wedi cofrestru i'r Mynegai. Fe'i hanfonwyd hefyd at Gydlynwyr ADY gyda chais i'w lanlwytho i'w gwefannau i deuluoedd ei gwyllo.

Dylai'r ffilm helpu teuluoedd i ddeall y newidiadau'n well o ganlyniad i'r gyfraith newydd a'r system ADY newydd gysylltiedig; a'r gwahaniaethau rhwng y system / Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig a'r system ADY newydd.

Gellir gweld y ffilm yma: https://www.youtube.com/watch?v=7QmZ8_H6kWA

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ym maes lechyd. Rydym wedi ailddechrau ein gwasanaeth allgymorth yn Ysbyty Llandochoau ac rydym yn mynychu cyfleoedd allgymorth yn y gymuned unwaith eto yn dilyn saib o ganlyniad i'r pandemig.

Fel bob amser, rydym yn ymdrechu mewn cymaint o ffyrdd â phosibl i gyrraedd cynifer o deuluoedd yn y Fro â phlentyn neu berson ifanc 0-18 oed ag anabledd, angen ychwanegol neu angen sy'n dod i'r amlwg er mwyn darparu ein gwybodaeth a'n cymorth y mae mawr eu hangen.



Contact details:

Lyndsey Richards,

Index Officer 0800 587 1014



https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/children_w_ith_additional_needs/the-index/The-Index.aspx

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/children_w_ith_additional_needs/the-index/The-Index.aspx

Diweddariad The Big Fresh Chwefror 2022



Wel, mae wedi bod yn 6 mis prysur iawn arall i ni yng nghwmni arlwygo The Big Fresh. Gyda brwydrau COVID yn dal i effeithio arnom o fewn y gwasanaeth, ein staff fu piler i'r cwmni sy'n gweithio'n ddiflino i wasanaethu'r disgyblion, staff yn ein hysgolion a phobl Bro Morgannwg o'n darpariaeth caffï ym Mhier Penarth

Rydym wedi parhau i dyfu ein canolfan cwsmeriaid yng Nghaffi pafiliwn Penarth, gyda phob ceiniog o'n helw yn cael ei ail-fuddsoddi yn yr ysgolion ym Mro Morgannwg. Llwyddom i gyflwyno rhai digwyddiadau anhygoel yn y cyfnod cyn y Nadolig gan ddechrau gyda cherfio pwmpen ar gyfer Calan Gaeaf, i ddangosiadau Polar Express gyda the prynhawn a phrofiad brecio gyda Siôn Corn gyda Siôn Corn ar ôl y ffilm. Roedd hwn yn ddigwyddiad cynhesu calon a oedd yn llwyddiant dros y 3 digwyddiad yr oedd ymlaen. Llwyddodd un o'n staff i wneud fersiwn llai o drên Polar Express a gyfarchodd ein gwesteion drwy gydol mis Rhagfyr. Mae gennym lawer i edrych ymlaen ato eleni wrth i ni barhau i edrych mewn i bartneriaeth â staff y Pafiliwn i greu digwyddiadau. Cadwch lygad am ddigwyddiadau sydd i ddod y gallech fod am eu mynychu.



Mae staff cegin ein hysgolion hefyd wedi bod yn brysur yn sicrhau bod ein holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn parhau i fwynhau'r gwasanaeth a ddarparwn. Mae gennym 2 safle ysgol uwchradd newydd sydd wedi bod yn newid enfawr i'n timau yn yr ysgolion hynny. Mae Ysgolion Uwchradd Whitmore a Phencoedtre wedi symud i adeilad newydd sbon o'r radd flaenaf dros y 6 mis diwethaf ac mae ein timau wedi gwneud gwaith gwych yn sefydlu cegin newydd a mathau newydd ar wasanaeth i allu bwydo disgyblion ar y safle. Rydym yn falch iawn o'r gwaith y mae ein staff yn parhau i'w gynhyrchu i'n helpu i dyfu fel busnes. Cofiwch ddod i ymweld â ni ym Mhenarth ac edrych ar ein tudalen Facebook.

Bwletin Llywodraethwyr Ysgol yng Nghymru Rhifyn 9 – Chwefror 2022

Annwyl Lywodraethwr,

Cliciwch ar y ddolen [yma](#) isod i weld Bwletin Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg a Addysg.